



21 Ionawr 2019

**YMATEB COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU I ADRODDIAD AROLYGU
HMICFRS: POLICING AND MENTAL HEALTH: Picking up the Pieces**

Rwy'n croesawu'r adroddiad hwn yn fawr iawn am ei fod yn amlygu llawer o bryderon yr wyf i ac, yn wir, Matt Jukes, Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru, yn eu rhannu am yr heriau sy'n gysylltiedig â phlisma problemau iechyd meddwl yn ein hardal. Er nad yw'r adroddiad hwn yn ymwneud yn benodol â De Cymru, mae problemau cyfarwydd ynddo sydd, yn haeddiannol, wedi cael eu nodi fel problemau cenedlaethol ledled Cymru a Lloegr ac mae tri argymhelliad i bob heddlu weithio tuag atynt. Mae hyn i'w groesawu.

Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y baich aruthrol y mae'r argyfwng iechyd meddwl yn ei roi ar blisma, ar adeg pan fo'r galw yn newid a phan fo'r pwysau ariannol o du'r Llywodraeth Ganolog yn parhau. Mae'n nodi'n gywir fod angen cymorth arbenigol ar bobl â phroblemau iechyd meddwl a bod angen i'r rhai sydd mewn argyfwng gael gofal mewn lleoliad gofal iechyd. Nid problem blisma yw hon yn ei hanfod ond problem sy'n deillio o'r ffaith nad oes digon o adnoddau a gwasanaethau mwy priodol ar gael. Mae Heddlu De Cymru yn profi lefel uchel o alwadau a llwythi gwaith uchel mewn perthynas â phobl sydd â salwch meddwl a/neu y mae angen ymyrraeth argyfwng frys arnynt am y rhesymau hyn. Mae ein swyddogion a'n staff yn ymrwymedig i ddarparu lefel uchel o wasanaeth i bobl sy'n agored i niwed, gan gynnwys y rhai ag anghenion iechyd meddwl, ac mae'r empathi a ddangosir ganddynt wedi cael ei adlewyrchu'n gynyddol gan y bobl y maen nhw wedi'u helpu. Fodd bynnag, mae terfyn ar yr hyn y gall gwasanaeth yr heddlu ei wneud ac rwy'n ddiolchgar bod cywair yr adroddiad hwn yn cefnogi hyn. Nid yw'r her hon yn mynd i ddiflannu ac mae'n destun pryder i mi bod y baich yn cynyddu wrth i'r heriau ariannol sy'n ein hwynebu ni a'n partneriaid gynyddu.

Mae'r adroddiad yn argymhell y dylai pob heddlu gynnal ymarfer ciplun er mwyn asesu'r galw sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl. Rydym eisoes wedi gwneud hyn a chanfu ein hymarfer diweddar bod 12% o'r galwadau a gawsom yn ystod cyfnod o 24 awr yn ymwneud â phroblemau iechyd meddwl a oedd wedi'u nodi. Yn ôl ein hadolygiad ciplun, roedd swyddogion wedi treulio tair awr a thri chwarter yn ymwneud â digwyddiadau iechyd meddwl ar gyfartaledd ond, mewn chwarter o achosion, roedd swyddogion wedi treulio dros bum awr.

Y Gwir Anrh Alun Michael YH OStJ FRSA

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
Police and Crime Commissioner for South Wales



Mae angen i ni gadw cofnodion mwy cywir a chodi ymwybyddiaeth o'r galw a byddaf yn gweithio gyda'r Prif Gwnstabl i sicrhau bod hyn yn digwydd a bod anghenion iechyd meddwl yn cael eu nodi yn y ffordd orau bosibl a chyn gynted â phosibl.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu ap ar gyfer swyddogion yn Heddlu De Cymru, a ddylai ddarparu gwybodaeth fyw a chadw cofnod awtomatig o'r amser y mae swyddog yn ei dreulio yn delio â digwyddiad iechyd meddwl.

Mae'r adroddiad hefyd yn argymhell y dylai pob heddlu werthuso ei wasanaethau brysbennu iechyd meddwl, ac mae hyn i'w groesawu hefyd. Mae'r peilot brysbennu newydd yn ein Canolfan Gwasanaethau Cyhoeddus (ystafell reoli) wedi dechrau ers mis Ionawr 2019 ac rydym eisoes wedi comisiynu gwerthusiad o'r broses hon a fydd yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac yn ceisio barn y rhai sydd wedi cael profiadau uniongyrchol (rhywbeth arall y mae'r adroddiad yn galw amdano yn gywir ddigon). Bydd hyn yn bendant yn helpu i hysbysu swyddogion pan fydd ymateb meddygol neu iechyd meddwl syml ar gael ond rydym ni a phroffesiynau eraill weithiau'n camddeall ein gilydd. Codais y pwynt hwn yr wythnos diwethaf yng nghyfarfod Llywodraeth Cymru sy'n rhoi sicrwydd bod y Concordat Argyfwng rhwng yr Heddlu a'r GIG yng Nghymru yn cael ei ddilyn, gan awgrymu y dylem siarad mwy am "Iechyd a Lles Meddwl" ac roedd cefnogaeth i'r cysyniad hwnnw gan gydweithwyr ym maes plismona ac iechyd.

Mae'r adroddiad hefyd yn argymhell y dylai pob heddlu adolygu ei raglenni hyfforddiant iechyd meddwl a byddaf yn sicrhau bod adolygiad trylwyr yn cael ei gynnal yn Ne Cymru. Mae fy rhag-gynllun craffu ar gyfer 2019 yn cynnwys ffocws ar iechyd meddwl a phlismona, a bydd hyn yn gyfle gwych i mi sicrhau bod Heddlu De Cymru yn ymateb i'r argymhellion yn ogystal â'r materion eraill y rhoddir sylw iddynt yn yr adroddiad.

Mae'r Prif Gwnstabl, Matt Jukes, yn rhannu fy marn ar yr adroddiad, fel y dengys ei sylw isod:

'Mae'r adroddiad i'w groesawu gan ei fod yn taflu goleuni ar y galw ychwanegol sy'n wynebu Heddlu De Cymru ac, yn wir, heddluoedd ledled Cymru, wrth ddelio ag iechyd meddwl. Mae'n bwysig bod yr unigolion hynny â salwch meddwl yn cael ymateb priodol ac addas gan y gweithwyr proffesiynol gorau ac, mewn llawer o achosion, disgwylir i'r heddlu ddelio â phobl a fyddai'n cael mwy o fudd o ddefnyddio asiantaethau eraill. Bydd Heddlu De Cymru bob amser yn helpu'r rhai mewn angen ond y peth pwysig wrth ddelio ag argyfwng iechyd meddwl yw ceisio atal yr argyfwng rhag digwydd yn y lle cyntaf drwy gamau ymyrryd ac atal cynnar. Felly, mae Heddlu

Tŷ Morgannwg, Pencadlys yr Heddlu
Pen-y-Bont ar Ogwr, CF31 3SU
f: 01656 869366
e: commissioner@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk
g: southwalescommissioner.org.uk

Tŷ Morgannwg, Police Headquarters,
Bridgend, CF31 3SU
t: 01656 869366
e: commissioner@south-wales.pnn.police.uk
w: southwalescommissioner.org.uk

Mae'r Comisiynydd a'i dîm yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
The Commissioner and his team welcome correspondence in Welsh or English

Y Gwir Anrh Alun Michael YH OStJ FRSA

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
Police and Crime Commissioner for South Wales



De Cymru yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, Byrddau Iechyd Lleol a phartneriaid eraill ac, yn ddiweddar, mae'r heddlu wedi ariannu camau i recriwtio nysys seiciatrig cymunedol i weithio yn y ganolfan gwasanaethau cyhoeddus. Bydd y nysys hyn yn gallu darparu cyngor ac ymyriadau cynnar er mwyn sicrhau bod y rhai mewn argyfwng iechyd meddwl yn cael y cymorth cywir sydd ei angen arnynt a, lle bo hynny'n briodol, byddant yn eu dargyfeirio fel na bod angen cymorth arnynt gan swyddog yr heddlu'.

Mae hyn yn ein gadael o hyd â nifer fawr o alwadau sy'n ymwneud ag argyfwng o ryw fath ond nid diagnosis o'r angen am feddyginiaeth neu driniaeth seiciatrig, ond o leiaf rydym yn trafod y problemau hyn yn agored ac yn chwilio am ffordd o fynd i'r afael â nhw, er enghraifft, drwy "noddfa" ar y cyd a thrwy weithio gyda'r Trydydd Sector.

Rwy'n falch bod yr adroddiad yn cefnogi'r gwaith y mae'r heddlu yn ei wneud i fynd i'r afael â'r problemau hyn a'r canfyddiad bod yr heddlu yn ymdrin â phobl â phroblemau iechyd meddwl mewn ffordd gefnogol, ystyriol a thosturiol ar y cyfan.

Credaf fod ein swyddogion ar reng flaen y ddarpariaeth waraidd a gwybodus hon ond croesawaf y ffaith bod yr adroddiad yn cydnabod bod terfyn ar yr hyn y gall yr heddlu ei wneud i wella'r darlun cyffredinol.

Yr her fwyaf a phwysicaf sy'n wynebu heddluoedd yw cael ein hasiantaethau partner i ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb am y rhai â phroblemau iechyd meddwl nad ydynt yn gysylltiedig â phlisma fel y gall ein swyddogion a'n staff dreulio llai o amser yn delio â'r materion hyn. Rydym yn ymrwymedig i weithio gyda phartneriaid iechyd cyhoeddus i geisio atal problemau iechyd meddwl ond mae'n amlwg bod angen gwneud mwy er mwyn lleihau dibyniaeth ar yr heddlu a sicrhau y gall pobl gael y cymorth arbenigol sydd ei angen arnynt, pryd y mae ei angen arnynt yn ogystal â chymorth llai arbenigol os mai dyna sydd ei angen. Rwy'n gweithio'n galed gyda'r Prif Gwnstabl i wneud hyn yn ein hardal ond rydym yn dod ar draws gwrthwynebiad yn sgil pwysau ariannol ac amharodrwydd i rannu'r angen ehangach am gymorth argyfwng. Rwyf, felly, yn ddiolchgar bod yr Arolygiaeth wedi cydnabod yr heriau ac rwy'n bwriadu canolbwyntio mwy ar y materion hyn yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

Y Gwir Anrh Alun Michael Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru

Tŷ Morgannwg, Pencadlys yr Heddlu
Pen-y-Bont ar Ogwr, CF31 3SU
f: 01656 869366
e: commissioner@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk
g: southwalescommissioner.org.uk

Tŷ Morgannwg, Police Headquarters,
Bridgend, CF31 3SU
t: 01656 869366
e: commissioner@south-wales.pnn.police.uk
w: southwalescommissioner.org.uk

Mae'r Comisiynydd a'i dîm yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
The Commissioner and his team welcome correspondence in Welsh or English